| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **18 Ebrill 2024** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Y Cyng. Emrys Wynne, Aelod Arweiniol Strategaeth Ddigidol a Band Eang** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Liz Grieve, Pennaeth y Gwasanaeth Tai a Chymunedau** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Philip Burrows, Swyddog** |
| **Teitl** | **Cysylltedd Rhyngrwyd Gwael yn Sir** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Statws cysylltedd rhyngrwyd safleoedd yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth ynglŷn â statws y rhyngrwyd a theleffoni yn Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

3.1. adolygu ac yn deall y wybodaeth a ddarperir o ran sefyllfa bresennol cysylltedd y rhyngrwyd a theleffoni yn Sir Ddinbych; ac

3.2. yn penderfynu os oes angen craffu pellach ar faterion cysylltedd penodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Allan o'r cyfanswm o 50,501 eiddo yn Sir Ddinbych mae 2,690 eiddo yn derbyn cyflymderau rhyngrwyd o 30Mbs neu lai ac mae 1,145 eiddo yn derbyn cyflymderau rhyngrwyd o 10Mbs neu lai. (Gweler Atodiad A am fwy o fanylion.)

4.2. ‘Helpu trigolion i ddeall yr opsiynau a datrysiadau ar gyfer gwell cysylltedd rhyngrwyd’ yw ein nod o fewn ein Cynllun Corfforaethol ac mae CSDd wedi buddsoddi mewn swydd Swyddog Digidol (o Chwefror 2020 i Fai 2025) i hysbysu unigolion, busnesau a chymunedau am hyn.

4.3. Mae’r Swyddog Digidol yn gweithio’n agos gydag Aelodau o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned wrth hysbysu cymunedau.

4.4. Mae hyn yn bwysig gan fod y tirlun cysylltedd a dewisiadau ar gyfer gwella yn gymhleth i’w llywio, oherwydd y ffactorau canlynol:

i) Nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar Openreach i gysylltu pob eiddo gyda ffibr.

ii) Openreach yw’r unig ddarparwr ffibr sy’n gwneud gwaith uwchraddio mewn ardaloedd gwledig ar hyn o bryd.

iii) Nid oes gan Gyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU, unrhyw bŵer i ddylanwadu ar sut mae cwmni preifat (Openreach) yn rhedeg ei fusnes. Yr unig beth allwn ni ei wneud yw eu hannog i osod mwy o ffibr yn ein sir drwy gefnogi trigolion i gael mynediad at gynllun ‘Talebau Gigabit’ Llywodraeth y DU.

iv) Dim ond wrth fodloni nifer o feini prawf cymhwyso y gellir cael mynediad at y cynllun ‘Talebau Gigabit’, ac yn aml mae’n ofynnol i drigolion gydweithio er mwyn cyfuno eu talebau ar gyfer talu’r costau gosod, drwy ffurfio ‘Partneriaeth Ffibr Cymunedol’. Fodd bynnag, mae hyn yn broses sy’n cymryd amser ac weithiau nid yw’n ddigon i ddiwallu’r gost.

v) Daw Cynllun ‘Talebau Gigabit’ Llywodraeth y DU i ben ym mis Mawrth 2025. Nid oedd ar gael dros y 12 mis diwethaf oherwydd ‘Prosiect ‘Gigabit’ Llywodraeth y DU. Nes y bydd y prosiect hwn wedi pennu pa safleoedd yn Sir Ddinbych fydd yn cael eu huwchraddio, ni fydd y cynllun Talebau ar gael i ni.

vi) Mae ardaloedd bychain wedi’u rhyddhau o’r ‘Prosiect Gigabit’ ac maent yn gymwys i dderbyn talebau.

vii) Ni fydd Openreach yn dechrau unrhyw Bartneriaethau Ffibr Cymunedol newydd gan fod y cynllun ‘Talebau Gigabit’ yn dod i ben ym mis Mawrth 2025.

viii) Mae technolegau amgen megis cysylltiadau di-wifr, lloeren a 4G ar gael, ond nid dyna’r datrysiad gorau ar gyfer trigolion bob tro.

4.5 Mae’r Cyngor yn cael ei gynrychioli hefyd ar Raglenni Digidol a Bwrdd Digidol Uchelgais Gogledd Cymru. Mae’r gwaith hwn ar lefel strategol a lefel ranbarthol ac mae’n canolbwyntio ar wella isadeiledd ar draws y rhanbarth. Mae’r amgylchedd

ymyrraeth polisi a masnachol newidiol yn gwneud y gwaith yn heriol oherwydd cyhoeddiadau a newidiadau masnachol gan OpenReach ac ymyrraeth gan Lywodraeth y DU, sy'n gallu golygu nad oes angen neu nad yw prosiectau Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn ymarferol mwyach, yn sgil trefniadau masnachol ac ymyrraeth Llywodraeth y DU. Mae hwn yn waith tymor canolig i hirdymor, ac felly gall prosiectau o'r fath newid i adlewyrchu'r amgylchedd newidiol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â'r flaenoriaeth 'Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well', ac yn benodol y nod i 'Helpu trigolion ddeall dewisiadau a datrysiadau ar gyfer gwell cysylltedd rhyngrwyd, gan gynnwys trwy Bartneriaethau Ffibr Cymunedol'.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â llunio'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oedd angen rhai ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cyflwynwyd adroddiad tebyg i'r Pwyllgor Craffu yn 2023.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Os na fydd Cynllun 'Talebau Gigabit' Llywodraeth y DU yn cael ei adnewyddu ym mis Mawrth 2025, ni fyddwn yn gallu talu am ffibr ar gyfer ardaloedd gwledig drwy Bartneriaeth Ffibr Cymunedol Openreach.

10.2. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan y bydd hi'n rhy ddrud i gysylltu rhai safleoedd sy'n anodd iawn eu cyrraedd gyda ffibr.

10.3. Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio rhaglen cysylltedd newydd sef 'Ymestyn Cyrhaeddiad Band Eang Cyflym yng Nghymru'. Bydd hyn yn darparu cysylltiad 30mbps ar gyfer rhai safleoedd y mae'n anodd iawn eu cyrraedd.

10.4. Nodwyd risg y gallai ymyrraeth arfaethedig rhaglenni digidol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru effeithio ar benderfyniadau OpenReach i newid ei gynlluniau masnachol yn y rhanbarth, gan gynnwys yn Sir Ddinbych, lle mae'r ôl troed digidol yn gwella.

10.5. Bydd Rhwydwaith Ffôn Cyhoeddus Openreach, a elwir hefyd yn gyfnewidfeydd copr, yn cael eu diffodd erbyn mis Rhagfyr 2025. Dylai eiddo sy'n defnyddio'r system ffibr VoIP wybod na fyddant yn gallu defnyddio ffôn llinell dir os bydd toriad yn y cyflenwad trydan. Os na fydd gan y modem a ffôn drydan, ni fyddant yn gallu gwneud galwadau ffôn. Ar yr hen system gopr, roedd yr ychydig o drydan oedd yn cael ei gario dros linellau copr yn pweru'r ffôn. Mae hyn yn fwy o broblem mewn ardaloedd heb signal 4G. Bydd y Swyddog Digidol yn gweithio i hysbysu cymunedau am y risg hon ac yn ceisio dod o hyd i ddatrysiadau eraill lle bo modd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Mae Adran 7.2.3 yn nodi y gall y Pwyllgor Craffu ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal neu drigolion y Cyngor.